# Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2020/21 (dros dro)

30 Medi 2021
SFR 305/2021

## Newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn

### Atal mesurau perfformiad

Oherwydd canslo'r cyfnod arholiad arferol yn 2020/21 a'r amharu parhaus ar Ysgolion oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ar y pryd ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cynfrifo nac cyhoeddi mesurau perfformiad ar gyfer 2019/20 or 2020/21, ar gyfer Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth.

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddosbarthiadau gradd sy'n gyson â gwybodaeth arall a ryddhawyd gan Cymwysterau Cymru a'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) (gweler y diffiniadau). Mae'r dosbarthiadau gradd hyn yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu dadansoddi ar lefel fwy man ac yn dangos canlyniadau ar yr ystodau gallu uchaf ac isaf.

### Graddau a aseswyd gan ganolfannau

Yn dilyn canslo arholiadau cyhoeddus, mae'r holl gymwysterau a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau yn nhymor yr haf 2020/21 wedi cael eu dyfarnu gyda model gradd a bennir gan ganolfan. Penderfynwyd ar raddau gan ysgolion a cholegau, yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth (gan gynnwys asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth).

Ni fydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 radd a bennir gan y ganolfan ond y graddau a gyflawnwyd ganddynt mewn arholiad ysgrifenedig

### Dosbarthiad Graddau

Mae'r gwerthoedd yn y graffiau a'r ffigurau yn y datganiad hwn yn dangos canran y cofrestriadau a ddyfarnwyd ar bob gradd unigol, wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion dethol disgyblion. Er enghraifft, yn Siart 2, mae'r bar glas golau cyntaf ar y chwith (gwerth 6.9 y cant) yn cynrychioli nifer y graddau A * a ddyfarnwyd yn 2017/18 fel canran o'r holl gofrestriadau yn 2017/18.

Mae'r canlyniadau hyn yn cynrychioli'r data a oedd ar gael i gyrff dyfarnu ar 17 Medi 2021. Gallant fod yn wahanol i'r canlyniadau a gyhoeddwyd yn gynharach gan naill ai Cymwysterau Cymru neu JCQ. Mae'r datganiad

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r Datganiad Ystadegol hwn yn rhoi dadansoddiad o'r arholiadau allanol a ddyfarnwyd i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 (CA4; 15 oed) neu ddisgyblion chweched dosbarth (17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) mewn ysgolion yng Nghymru yn 2020/21 ac yn ystod blynyddoedd blaenorol. I gael rhagor o ddata a dadansoddiad manylach, gweler y tablau ategol

## Yn y datganiad hwn

**Disgyblion Bl. 11 (CA4)**
Dosbarthiad Graddau 3
Nodweddion Disgybl 6
**Disgyblion 17 oed**
DosbarthiadGraddau 12
Nodweddion Disgybl
**Atodiad**
Diffiniadau 15
Nodiadau 15

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

ystadegol hwn yn canolbwyntio ar ddisgyblion ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac mae'n cynnwys canlyniadau apeliadau llwyddiannus hyd at 17 Medi 2021. Data a gyhoeddwyd gan sefydliadau eraill.

## 1. Canlyniadau allweddol 2020/21

### Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

- Yn 2020/21, roedd y canran y cofrestriadau a ddyfarnwyd A*-A ac A*-C yr uchaf ers 2008/09 (mae data rhwng 2008/09 a 2014/15 ar gael ar StatsCymru) (siart 1).
- Roedd canran y cofrestriadau a ddyfarnwyd ar bob gradd unigol A*, A ac G yn uwch yn 2020/21 na'r flwyddyn flaenorol tra bod canran y cofrestriadau yn is ar gyfer bob gradd unigol rhwng B ac F (siart 2).
- Mae'r canlyniadau yn ôl nodweddion dethol disgyblion yn dangos:
    - Cynyddodd y bwlch rhwng bechgyn a merched dros y flwyddyn ddiwethaf ar raddau A*-A ac A*-G ond gostyngodd ar raddau A* -C, gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r tair ystod gradd (siart 6b).
    - Cynyddodd y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn yr ystod graddau A*-A , A*-C ac A*-G, gyda disgyblion nad ydynt yn gymwys yn perfformio’n well na’r rhai sydd yn gymwys (siart 7b).
    - Cynyddodd y bwlch rhwng disgyblion Gwyn Prydain a disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn yr ystod graddau A*-A ac A*-C gyda disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn perfformio’n well na disgyblion Gwyn Prydeinig. Roedd y bwlch yn A*-G yn ddibwys.


### Disgyblion 17 oed (Chweched dosbarth)

- Gweler patrwm tebyg yng nghanlyniadau Safon Uwch.
- Roedd y canran y cofrestriadau a ddyfarnwyd A*-A yr uchaf ers 2008/09 (mae data rhwng 2008/09 a 2014/15 ar gael ar StatsCymru)
- Cynyddodd y bwlch rhwng merched a bechgyn yn yr ystod graddau A*-A ac A*-C gyda merched yn perfformio’n well na bechgyn. Roedd y bwlch yn A*-E yn ddibwys (siart 11b).

## 2. Disgyblion blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

### Dosbarthiad gradd TGAU cyffredinol

**Siart 1: canran y cofrestriadau TGAUI fesul gradd dros pob pwnc**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-G | 98.9 | 98.0 | 97.5 | 96.9 | 99.4 | 98.6 |
| A*-C | 71.9 | 68.2 | 67.3 | 65.1 | 74.9 | 75.4 |
| A*-A | 20.8 | 19.8 | 19.8 | 19.5 | 26.0 | 29.7 |

Rhwng 2015/16 a 2018/19 gostyngodd canran y cofrestriadau TGAU sy'n cyrraedd pob ystod gradd (A*-A, A*-C ac A*-G). Y gostyngiad mwyaf yn y cyfnod hwnnw oedd gostyngiad o 6.8 pwynt canran yn yr ystod A* -C.

Yn 2020/21 mae canran y cofrestriadau TGAU yn yr ystod graddau A*-A ac A*-C wedi cynyddu o 2019/20. Roedd y cynnydd mwyaf yn yr ystod A*-A gyda chynnydd o 3.7 pwynt canran. Mae canran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd yn yr ystod A*-G wedi gostwng yn 2020/21 i 98.6 pwynt canran.


**Siart 2: Canran y cofrestriadau TGAU fesul gradd unigol dros pob pwnc**



| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 6.9 | 12.9 | 21.8 | 25.6 | 13.6 | 8.4 | 4.9 | 3.2 | 2.5 |
| 2018/19 | 6.8 | 12.7 | 21.4 | 24.2 | 14.1 | 8.9 | 5.3 | 3.5 | 3.1 |
| 2019/20 | 11.2 | 14.8 | 23.5 | 25.4 | 12.4 | 6.4 | 3.4 | 2.3 | 0.6 |
| 2020/21 | 14.2 | 15.5 | 23.0 | 22.7 | 11.1 | 6.4 | 3.3 | 2.5 | 1.4 |

Digwyddodd y newid mwyaf yn y dosbarthiad yn 2019/20 a 2020/21. Yn 2020/21 cynyddodd canran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau A* ac A o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r cynnydd mwyaf yn A* gyda 14.2 pwynt canran. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau C, D, E ac F yn 2020/21.

**Siart 3: Canran y cofrestriadau TGAU fesul gradd unigol mewn cymwysterau llythrennedd**




| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 4.1 | 13.2 | 25.3 | 28.7 | 15.3 | 7.0 | 3.8 | 1.7 | 0.9 |
| 2018/19 | 3.7 | 12.6 | 23.8 | 27.1 | 17.1 | 8.2 | 4.2 | 2.2 | 1.1 |
| 2019/20 | 7.0 | 15.1 | 26.3 | 27.7 | 14.3 | 5.7 | 2.5 | 1.1 | 0.3 |
| 2020/21 | 8.7 | 16.7 | 26.4 | 25.2 | 12.5 | 5.7 | 2.5 | 1.5 | 0.7 |

Mae cymwysterau llythrennedd yn cynnwys TGAU Saesneg / Cymraeg (iaith gyntaf) Iaith a Llenyddiaeth.

O 2018/19 i 2019/20 bu cynnydd yng nghanran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau A*, A, B ac C. Yn 2020/21 bu cynydd pellach yn y dyfarniadau graddau A*, A ac C. Roedd y cynydd mwyaf o 1.8 pwynt canran yng ngradd A*. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau C ac D yn 2020/21.

**Siart 4: Canran y cofrestriadau TGAU fesul gradd unigol mewn cymwysterau rhifedd**




| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 9.2 | 9.3 | 17.5 | 25.2 | 13.9 | 9.9 | 5.1 | 5.8 | 4.1 |
| 2018/19 | 7.5 | 9.2 | 17.4 | 25.9 | 14.1 | 11.6 | 5.4 | 4.8 | 4.2 |
| 2019/20 | 10.4 | 10.1 | 20.3 | 24.6 | 13.9 | 9.1 | 5.2 | 4.6 | 1.8 |
| 2020/21 | 14.1 | 10.6 | 23.1 | 20.2 | 11.7 | 9.0 | 4.8 | 4.2 | 2.3 |

Mae cymwysterau rhifedd yn cynnwys TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg Rhifedd.

O 2018/19 i 2019/20 bu cynnydd yng nghanran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau A*, A a B. Yn 2020/21 mae canran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau A * -B wedi cynyddu pellach. Roedd y cynydd mwyaf o 3.7 pwynt canran yng ngradd A*. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau C-G yn 2020/21. Roedd yr ostyngiad mwyaf o 4.4 pwynt canran yng ngradd C.

**Siart 5: Canran y cofrestriadau TGAU fesul gradd unigol mewn cymwysterau gwyddoniaeth**




| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 7.2 | 11.5 | 21.3 | 25.9 | 11.8 | 8.1 | 6.3 | 3.9 | 4.0 |
| 2018/19 | 8.0 | 11.9 | 21.9 | 25.6 | 11.9 | 7.6 | 6.0 | 3.7 | 3.5 |
| 2019/20 | 12.7 | 12.7 | 22.4 | 25.6 | 11.2 | 7.0 | 4.6 | 3.1 | 0.6 |
| 2020/21 | 16.1 | 14.2 | 19.4 | 25.2 | 11.6 | 5.9 | 3.7 | 2.6 | 1.1 |

Mae cymwysterau gwyddoniaeth yn cynnwys TGAU yn y pynciau a ganlyn: Ffiseg, Bioleg, Cemeg, Gwyddoniaeth (Gwobr Ddwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gwobr Ddwbl) a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gwobr Sengl).


O 2018/19 i 2019/20 bu cynnydd yng nghanran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd graddau A*-B. Yn 2020/21 mae canran y cofrestriadau TGAU sy'n cyflawni A* ac A wedi cynyddu pellach. Roedd y cynnydd mwyaf o 3.4 pwynt canran yng ngradd A*. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y cofrestriadau TGAU sy'n cyflawni graddau B, C, E ac F yn 2020/21.

### Canlyniadau fesul nodweddion disgyblion

Mae'r siartiau canlynol yn dangos sut mae'r dosbarthiad gradd yn 2020/21 yn ôl nodweddion dethol disgyblion. Gellir gweld cymariaethau yn ôl ethnigrwydd y disgyblion a statws AAA yn y tablau atodol.

### Rhywedd

**Siart 6a: Canran y cofrestriadau TGAU gan ddisgyblion blwyddyn 11 yn cyflawni y graddau dros pob pwnc, fesul rhywedd, 2020/21**





| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bechgyn | 10.8 | 13.2 | 22.6 | 24.6 | 12.8 | 7.5 | 4.0 | 2.9 | 1.5 |
| Merched | 17.4 | 17.7 | 23.3 | 21.0 | 9.5 | 5.2 | 2.7 | 2.0 | 1.2 |

Yn 2020/21, cofnodwyd 149,440 o TGAU gan ferched a 145,540 gan fechgyn. Cyflawnodd merched mwy o raddau yn A *, A a B na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth gradd mwyaf yng ngraddau A* ac A gyda merched yn cyflawni 6.6 a 4.5 pwynt canran yn y drefn honno yn fwy o raddau A na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth gradd lleiaf yng ngradd U/X gyda bechgyn yn cyflawni 0.4 pwynt canran yn fwy o raddau U/X na merched.

**Tabl 1: Canran y cofrestriadau TGAU yn cyflawni ystod graddau dros pob pwnc yn ôl rhywedd**

| | | | Canran y cofrestriadau fesul gradd: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-G | Dim gradd wedi'I dyfarnu |
| Bechgyn | 2015/16 | 118,970 | 16.9 | 67.3 | 98.6 | 1.4 |
| | 2016/17 | 134,660 | 16.0 | 64.2 | 97.7 | 2.3 |
| | 2017/18 | 134,763 | 16.3 | 62.5 | 97.0 | 3.0 |
| | 2018/19 | 139,754 | 15.7 | 59.9 | 96.4 | 3.6 |
| | 2019/20 | 141,082 | 21.3 | 70.4 | 99.3 | 0.7 |
| | 2020/21 | 145,540 | 24.1 | 71.3 | 98.5 | 1.5 |
| Merched | 2015/16 | 125,722 | 24.6 | 76.2 | 99.1 | 0.9 |
| | 2016/17 | 139,145 | 23.5 | 72.1 | 98.3 | 1.7 |
| | 2017/18 | 137,773 | 23.2 | 71.9 | 97.9 | 2.1 |
| | 2018/19 | 142,816 | 23.1 | 70.1 | 97.5 | 2.5 |
| | 2019/20 | 143,944 | 30.7 | 79.3 | 99.4 | 0.6 |
| | 2020/21 | 149,440 | 35.1 | 79.4 | 98.8 | 1.2 |

**Siart 6b: Gwahaniaeth pwynt canran yng nghofrestriadau TGAU sy'n cyflawni ystod gradd yn ôl rhywedd (merched - bechgyn)**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-A | 7.7 | 7.6 | 6.9 | 7.4 | 9.4 | 11.0 |
| A*-C | 8.9 | 7.9 | 9.4 | 10.2 | 8.9 | 8.1 |
| A*-G | 0.5 | 0.6 | 0.9 | 1.1 | 0.1 | 0.4 |

Mae Siart 6b yn dangos y gwahaniaeth rhwng canran y merched a gyflawnodd yr ystod gradd a chanran y bechgyn a gyflawnodd yr ystod gradd (ee yn Nhabl 1 yn 2015/16 cyflawnodd 24.6% o ferched a 16.9% o fechgyn A* -A. Felly y gwahaniaeth yw 7.7 pwynt canran fel y dangosir yn y siart uchod).

Mae'r bwlch rhwng merched a bechgyn sy'n cyflawni graddau A*-A wedi ehangu rhwng 2015/16 a 2020/21, o 7.7 pwynt canran yn 2015/16 i 11.0 pwynt canran yn 2020/21.


Mae'r bwlch rhwng merched a bechgyn sy'n cyflawni graddau A*-C wedi culhau rhwng 2015/16 a 2019/20, o 8.9 pwynt canran yn 2015/16 i 8.1 pwynt canran yn 2020/21.

Mae'r bwlch rhwng merched a bechgyn sy'n cyflawni graddau A*-G yn ddibwys, yn amrywio rhwng 2015/16 a 2020/21 o 0.5 pwynt canran yn 2015/16 i 0.4 pwynt canran yn 2020/21.

## Prydau ysgol am ddim (PYD)

Mae disgyblion yn [gymwys i gael prydau ysgol](#) am ddim os yw eu teuluoedd yn derbyn rhai buddion / taliadau cymorth neu os ydynt ar gredyd cyffredinol. Mae siartiau 7a ac 7b yn dangos maint y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael PYD (eFSM) a'r rhai nad ydynt (nFSM).

**Siart 7a: Canran y cofrestriadau TGAU gan ddisgyblion blwyddyn 11 yn cyflawni y graddau dros pob pwnc yn ôl statws PYD (FSM), 2020/21**





| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| eFSM | 4.5 | 7.5 | 16.5 | 24.4 | 17.5 | 12.4 | 7.4 | 6.1 | 3.7 |
| nFSM | 16.2 | 17.2 | 24.3 | 22.4 | 9.8 | 5.1 | 2.5 | 1.7 | 0.9 |

Yn 2020/21, cofnodwyd 50,728 o TGAU gan ddisgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer PYD a 244,252 gan ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYD. Roedd canran uwch o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD yn cyflawni graddau A*, A a B na disgyblion a oedd yn gymwys am PYD. Roedd y gwahaniaeth gradd fwyaf yng ngradd A* gyda disgyblion yn gymwys i gael PYD yn cyflawni 11.6 pwynt canran yn fwy o raddau A* na disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYD. Roedd y gwahaniaeth gradd leiaf ar y radd C gyda disgyblion ddim yn gymwys ar gyfer PYD yn cyflawni 2.1 pwynt canran yn llai o raddau C na disgyblion sy'n gymwys i gael PYD.

**Tabl 2: Canran y cofrestriadau TGAU sy’n cyflawni yr ystod gradd dros pob pwnc yn ôl statws PYD**

| | | | Canran y cofrestriadau fesul gradd: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-G | Dim gradd wedi'I dyfarnu |
| Gymwys i PYD | 2015/16 | 29,844 | 8.0 | 50.0 | 96.6 | 3.4 |
| | 2016/17 | 35,624 | 6.9 | 44.5 | 94.2 | 5.8 |
| | 2017/18 | 35,548 | 7.1 | 43.1 | 92.9 | 7.1 |
| | 2018/19 | 37,443 | 6.6 | 40.7 | 92.0 | 8.0 |
| | 2019/20 | 39,244 | 10.7 | 53.6 | 98.1 | 1.9 |
| | 2020/21 | 50,728 | 12.0 | 52.9 | 96.3 | 3.7 |
| Ddim yn gwmwys i PYD | 2015/16 | 214,819 | 22.6 | 74.9 | 99.2 | 0.8 |
| | 2016/17 | 238,180 | 21.7 | 71.7 | 98.6 | 1.4 |
| | 2017/18 | 236,988 | 21.7 | 70.9 | 98.2 | 1.8 |
| | 2018/19 | 245,130 | 21.4 | 68.8 | 97.7 | 2.3 |
| | 2019/20 | 245,782 | 28.5 | 78.3 | 99.6 | 0.4 |
| | 2020/21 | 244,252 | 33.4 | 80.1 | 99.1 | 0.9 |

**Siart 7b: Gwahaniaeth pwynt canran yng nghofrestriadau TGAU sy'n cyflawni ystod gradd yn ôl statws PYD (ddim yn gymwys – yn gymwys)**



| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-A | 14.6 | 14.8 | 14.6 | 14.8 | 17.8 | 21.4 |
| A*-C | 24.9 | 27.2 | 27.9 | 28.1 | 24.7 | 27.2 |
| A*-G | 2.6 | 4.4 | 5.2 | 5.7 | 1.5 | 2.9 |

Mae Siart 7b yn dangos y gwahaniaeth rhwng canran y disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYD a gyflawnodd yr ystod gradd a chanran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD a gyflawnodd yr ystod gradd (ee yn Nhabl 2 yn 2015/16 cyflawnodd 22.6% o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYD a 8.0% o'r disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD graddau A*-A. Felly'r gwahaniaeth yw 14.6 pwynt canran fel y dangosir yn y siart uchod).

Ehangodd y bwlch ychydig rhwng disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD a disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD sy'n cyflawni graddau A*-A rhwng 2015/16 a 2020/21, o 14.6 pwynt canran yn 2015/16 i 21.4 pwynt canran yn 2019/20.


Ehangodd y bwlch rhwng disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD a disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD sy'n cyflawni graddau A*-C rhwng 2015/16 a 2020/21, o 24.9 pwynt canran yn 2015/16 i 27.2 pwynt canran yn 2020/21.

Ehangodd y bwlch rhwng disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD a disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD sy'n cyflawni graddau A*-G rhwng 2015/16 a 2019/20, o 2.6 pwynt canran yn 2015/16 i 2.9 pwynt canran yn 2020/21.

**Ethnigrwydd**

Yng nghyd-destun y cyhoeddiad hwn mae'r categori "Gwyn" a ddefnyddir isod, yn cyfeirio at ddisgyblion Gwyn-Brydeinig yn unig. Mae'r holl ddisgyblion eraill sydd ag ethnigrwydd wedi'i recordio wedi'u cynnwys o dan y categori grŵp Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Felly mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys disgyblion Gwyn nad ydynt yn Brydeinig. Nid yw disgyblion nad ydynt wedi nodi eu hethnigrwydd wedi'u cynnwys. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng grwpiau yn y categori Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn archwilio pa ddadansoddiad pellach sy'n bosibl ar gyfer grwpiau ethnig manylach.

**Siart 8a: Canran y cofrestriadau TGAU gan ddisgyblion blwyddyn 11 yn cyflawni y graddau dros pob pwnc yn ôl ethnigrwydd, 2020/21**





Yn 2020/21 roedd 32,387 o gofnodion TGAU gan ddisgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a 260,937 gan ddisgyblion Gwyn. Dyfarnwyd canran uwch o raddau A* a B i ddisgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig na disgyblion Gwyn. Roedd y gwahaniaeth gradd mwyaf ar y radd A* gyda disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn derbyn 5.9 pwynt canran yn fwy o raddau A* na disgyblion Gwyn. Roedd y gwahaniaeth gradd lleiaf ar y radd F a G gyda disgyblion Gwyn yn derbyn 0.2 pwynt canran yn fwy o raddau F a G na disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

**Tabl 3: Canran y cofrestriadau TGAU sy'n cyflawni yr ystod gradd dros pob pwnc yn ôl ethnigrwydd**

| | | | Canran y cofrestriadau fesul gradd: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-G | Dim gradd wedi'I dyfarnu |
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 2015/16 | 20,851 | 25.1 | 73.0 | 98.5 | 1.5 |
| | 2016/17 | 23,053 | 25.5 | 71.1 | 97.7 | 2.3 |
| | 2017/18 | 24,740 | 25.6 | 71.4 | 97.7 | 2.3 |
| | 2018/19 | 28,124 | 23.8 | 68.4 | 96.8 | 3.2 |
| | 2019/20 | 29,379 | 31.5 | 77.1 | 99.3 | 0.7 |
| | 2020/21 | 32,387 | 35.6 | 78.3 | 98.8 | 1.2 |
| Gwyn | 2015/16 | 221,045 | 20.5 | 72.1 | 99.0 | 1.0 |
| | 2016/17 | 247,352 | 19.4 | 68.3 | 98.2 | 1.8 |
| | 2017/18 | 244,848 | 19.4 | 67.3 | 97.6 | 2.4 |
| | 2019/19 | 250,970 | 19.1 | 65.1 | 97.1 | 2.9 |
| | 2019/20 | 254,206 | 25.3 | 74.6 | 99.4 | 0.6 |
| | 2020/21 | 260,937 | 28.9 | 75.0 | 98.6 | 1.4 |

**Siart 8b: Gwahaniaeth pwynt canran yng nghofrestriadau TGAU sy'n cyflawni ystod gradd yn ôl ethnigrwydd (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – gwyn)**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-A | 4.5 | 6.1 | 6.2 | 4.7 | 6.2 | 6.7 |
| A*-C | 0.9 | 2.8 | 4.1 | 3.3 | 2.5 | 3.3 |
| A*-G | -0.6 | -0.5 | 0.1 | -0.3 | -0.1 | 0.2 |

Mae Siart 8b yn dangos y gwahaniaeth rhwng canran y disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig y dyfarnwyd yr ystod gradd iddynt a chanran y disgyblion Gwyn y dyfarnwyd yr ystod gradd iddynt (ee yn Nhabl 3 yn 2015/16 25.1% dyfarnwyd graddau A*-A i ddisgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a 20.5% o ddisgyblion Gwyn. Felly'r gwahaniaeth yw 4.5 pwynt canran fel y dangosir uchod)

Ehangodd y bwlch rhwng disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a disgyblion Gwyn a ddyfarnwyd graddau A*-A rhwng 2015/16 a 2020/21, o 4.5 pwynt canran yn 2015/16 i 6.7 pwynt canran yn 2020/21.


Mae’r bwlch yn amrywio rhwng disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a disgyblion Gwyn a ddyfarnwyd graddau A*-C rhwng 2015/16 a 20120/21, o 0.9 pwynt canran yn 2015/16 i 3.3 pwynt canran yn 2020/21. Roedd y bwlch mwyaf o 4.1 pwynt canran yn 2017/18.

Mae’r bwlch yn ddibwys rhwng disgyblion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a disgyblion Gwyn a ddyfarnwyd raddau A*-G rhwng 2015/16 a 20120/21, yn amrywio o -0.6 pwynt canran yn 2015/16 i 0.2 pwynt canran yn 2020/21.

## 3. Disgyblion 17 oed ar ddechrau y flwyddyn ysgol mewn Ysgolion (Cyfnod Allweddol 5)

### Dosbarthiad graddau Safon Uwch

**Siart 9: Canran y cofrestriadau Safon Uwch gan ddisgyblion 17 oed sy'n cyflawni ystod gradd gwahanol**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-E | 99.1 | 99.4 | 99.0 | 99.3 | 100.0 | 100.0 |
| A*-C | 74.8 | 75.3 | 76.1 | 76.7 | 92.2 | 90.6 |
| A*-A | 21.2 | 22.4 | 24.5 | 25.5 | 41.3 | 49.1 |

Rhwng 2015/16 a 2019/20 bu cynnydd yng nghanran y cofrestriadau Safon Uwch yn y tair ystod gradd (A*-A, A*-C ac A*-E). Y cynnydd mwyaf oedd cynnydd o 20.0 pwynt canran yn yr ystod gradd A*-A.

Yn 2020/21 mae canran y cofrestriadau TGAU a ddyfarnwyd yn yr ystod graddau A*-A a A*-E wedi cynyddu. Roedd y cynnydd mwyaf yn yr ystod gradd A*-A gyda chynnydd o 7.8 pwynt canran. Bu gostyngiad o 1.7 pwynt canran yn y disgyblion a ddyfarnwyd graddau A*-C .

**Siart 10: Canran y cofrestriadau Safon Uwch gan ddisgyblion 17 oed sy'n cyflawni gradd ym mhob pwnc**




| | A* | A | B | C | D | E | U/X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 7.6 | 16.9 | 26.2 | 25.4 | 15.8 | 7.1 | 1.0 |
| 2018/19 | 8.4 | 17.1 | 26.3 | 25.0 | 15.7 | 6.8 | 0.7 |
| 2019/20 | 14.6 | 26.7 | 29.2 | 21.7 | 6.6 | 1.1 | 0.0 |
| 2020/21 | 20.5 | 28.5 | 25.5 | 16.0 | 6.3 | 3.1 | 0.0 |


Rhwng 2017/18 a 2019/20 bu cynnydd yng nghanran y cofrestriadau Safon Uwch a ddyfarnwyd graddau A*-B. Yn 2020/21 mae canran y cofrestriadau Safon Uwch a ddyfarnwyd graddau A* a A wedi cynyddu'n bellach. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y cofrestriadau Safon Uwch a ddyfarnwyd graddau B, C a D yn 2020/21.

## Nodweddion disgyblion

Mae'r siartiau canlynol yn dangos sut mae'r dosbarthiad gradd yn 2020/21 yn ôl nodweddion dethol disgyblion. Nid oes siart ar gyfer hawl i brydau bwyd am ddim oherwydd bod nifer y disgyblion o'r fath ym mlwyddyn 13 mewn ysgolion a gynhelir yn rhy isel i ganiatáu unrhyw gymariaethau ystyrlon. Gellir gweld cymariaethau yn ôl ethnigrwydd disgyblion a statws AAA yn y tablau atodol a ddarperir.

### Rhywedd

**Siart 11a: Canran y cofrestriadau Safon Uwch gan ddisgyblion 17 oed sy'n cyflawni gradd ym mhob pwnc yn ôl rhyw, 2020/21**





Yn 2020/21 cafwyd 12,339 o gofnodion Safon Uwch gan ferched ac 9,717 gan fechgyn. Dyfarnwyd canran uwch o raddau i ferched yn A*, A a B na merched . Roedd y gwahaniaeth gradd mwyaf ar y radd A gyda merched yn cael 6.6 pwynt canran yn fwy o raddau A na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth gradd lleiaf ar y radd B gyda merched yn cael 0.2 pwynt canran yn fwy o raddau E na bechgyn .

**Tabl 4: Canran y cofrestriadau TGAU sy'n cyflawni ystod gradd ym mhob pwnc yn ôl rhyw**

| | | | Canran y cofrestriadau fesul gradd: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-E | Dim gradd wedi'l dyfarnu |
| Bechgyn | 2015/16 | 10,024 | 20.1 | 70.6 | 98.9 | 1.1 |
| | 2016/17 | 9,586 | 22.6 | 72.2 | 99.1 | 0.9 |
| | 2017/18 | 8,748 | 24.9 | 72.6 | 98.5 | 1.5 |
| | 2018/19 | 8,278 | 24.6 | 73.1 | 99.0 | 1.0 |
| | 2019/20 | 8,137 | 38.8 | 90.2 | 99.9 | 0.1 |
| | 2020/21 | 9,717 | 44.6 | 87.7 | 100.0 | 0.0 |
| Merched | 2015/16 | 13,849 | 22.1 | 77.7 | 99.2 | 0.8 |
| | 2016/17 | 12,744 | 22.2 | 77.6 | 99.6 | 0.4 |
| | 2017/18 | 11,787 | 24.2 | 78.7 | 99.4 | 0.6 |
| | 2018/19 | 11,309 | 26.2 | 79.4 | 99.5 | 0.5 |
| | 2019/20 | 10,834 | 43.2 | 93.8 | 100.0 | 0.0 |
| | 2020/21 | 12,339 | 52.6 | 92.8 | 99.9 | 0.1 |

**Siart 11b: Gwahaniaeth pwynt canran yn y cofrestriadau Safon Uwch sy'n cyflawni ystod gradd yn ôl rhyw (merched - bechgyn)**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A*-A | 2.0 | -0.4 | -0.6 | 1.6 | 4.4 | 8.0 |
| A*-C | 7.1 | 5.4 | 6.2 | 6.2 | 3.6 | 5.0 |
| A*-E | 0.3 | 0.5 | 0.9 | 0.5 | 0.0 | 0.0 |

Mae Siart 11b yn dangos y gwahaniaeth rhwng canran y merched y dyfarnwyd yr ystod gradd iddynt a chanran y bechgyn y dyfarnwyd yr ystod gradd iddynt (ee yn Nhabl 4 2015/16 dyfarnwyd A*-A i 22.1% o ferched ac 20.1% o fechgyn. graddau. Felly, y gwahaniaeth yw 2.0 pwynt canran fel y dangosir uchod)

Ehangodd y bwlch rhwng merched a bechgyn a ddyfarnwyd graddau A*-A rhwng 2015/16 a 2020/21, o 2.0 pwynt canran yn 2015/16 i 8.0 pwynt canran yn 2020/21.

Culhaodd y bwlch rhwng merched a bechgyn a ddyfarnwyd graddau A*-C rhwng 2015/16 a 2020/21, o 7.1 pwynt canran yn 2015/16 i 5.0 pwynt canran yn 2020/21.

Mae’r bwlch yn ddibwys rhwng merched a bechgyn a ddyfarnwyd graddau A*-E rhwng 2015/16 a 2020/21, yn amrywio o 0.3 pwynt canran yn 2015/16 bron sero yn 2020/21.

# 4. Diffiniadau

### Newidiadau a chymhariaethau

Ar 20 Ionawr 2021, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 yn cael eu graddau wedi'u dyfarnu trwy model gradd a bennir gan y ganolfan.

Fe wnaeth cau ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth ac Awst 2020 atal Llywodraeth Cymru rhag cwblhau cyfrifiad o ysgolion yr Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) neu ddisgyblion Addysgedig heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Am y rheswm hwn nid yw disgyblion PRU ac EOTAS wedi'u cynnwys yn y canlyniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Fe wnaeth cau ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 hefyd oedi Llywodraeth Cymru rhag cwblhau cyfrifiad o PRU neu EOTAS. Am y rheswm hwn, nid yw disgyblion PRU ac EOTAS wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Bydd data ar gyfer y disgyblion hyn yn cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol y datganiad hwn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r data yn y datganiad hwn yn dechrau yn 2015/16 oherwydd newid diffiniad o'r garfan TGAU rhwng 2014/15 a 2015/16 lle newidiwyd y garfan o ddisgyblion 15 oed i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Gellir dod o hyd i ddata ar gyfer blynyddoedd cynharach ar StatsWales. Ffynhonellau data arall

Cyhoeddwyd gwybodaeth debyg hefyd gan Cymwysterau Cymru and JCQ. Bydd y wybodaeth a gyhoeddir gan y sefydliadau hynny yn cynnwys myfyrwyr o bob oed ac ym mhob canolfan arholi a bydd yn adlewyrchu'r graddau sydd ar gael ar ddiwrnod y canlyniadau (JCQ) neu ddechrau mis Medi (Cymwysterau Cymru). Mae'r canlyniadau yn y datganiad hwn ar gyfer myfyrwyr ym mlwyddyn 11 neu 17 oed yn unig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac maent yn adlewyrchu'r graddau sydd ar gael ar 17 Medi 2021.

# 5. Nodiadau

## Statws ystadegau gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 a dengys gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol i ystadegau ar ôl asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Cadarnhawyd bod yr ystadegau hyn yn parhau i fod yn Ystadegau Gwladol yn 2019 yn dilyn gwiriad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Aseswyd yr ystadegau hyn yn llawn yn erbyn y Cod Ymarfer ddiwethaf yn 2019.

Ers adolygiad diweddaraf y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Mae crynodeb o'r mesurau allweddol wedi'i gynnwys ar ddechrau'r cyhoeddiad, gan gynnwys esboniad manwl o'r mesurau allweddol newydd, ac mae'r mesurau hynny wedi'u gosod yn eu cyd-destun o ran graddau cyfatebol.
- Mae dadansoddiad o'r mesurau newydd yn ôl rhyw a chymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi'i gynnwys yn y datganiad a'r tablau ategol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyflwynwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys un o'r dangosyddion cenedlaethol sef y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael.

Mae gwybodaeth am ddangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, mae'n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yn:

https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2019-i-awst-2020-dros-dro

Mae rhagor o wybodaeth dechnegol ar gael yn y ddogfen nodiadau sydd hefyd ar y dudalen we canlyniadau arholiadau.

## Diweddariad nesaf

Rhagfyr 2021

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0, oni nodir fel arall.